

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Adfer Natur



Ein camau gweithredu i gyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol
2020-2024

www.arfordirpenfro.cymru



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park**

Cynllun Gweithredu ar Gadwraeth

Dylid darllen y cynllun gweithredu hwn ar y cyd â [Chynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024](#). Mae'r cynllun yn tynnu sylw at y camau blaenoriaeth i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n ymwneud â chadwraeth natur hyd at 2024. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys camau gweithredu y mae cyllid eisoes wedi'i gymeradwyo ar eu cyfer. Hefyd nodir camau gweithredu y byddai o bosibl angen adnoddau ar eu cyfer. Lle mae hyn yn wir, byddai unrhyw benderfyniad ynglŷn ag adnoddau yn cael ei wneud yn unol â gweithdrefnau safonol yr Awdurdod.

Dylid edrych ar *Adfer Natur* ar y cyd â'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau cyfredol. Mae mwy o fanylion am y camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr Adroddiadau Cadwraeth blynyddol a gyflwynir i Bwyllgor Adolygu Gweithredol yr Awdurdod.

Cafodd *Adfer Natur* ei ddrafftio gyda mewnbwn gan staff cadwraeth yr Awdurdod, ac ymgynghorwyd â'r uwch reolwyr a'r arweinyddion tîm. Hefyd ymgynghorwyd â'r partneriaid canlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Penfro, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Mae'r cynllun gweithredu yn clustnodi gwaith y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bwriadu arwain arno. Fodd bynnag, mae cyflawni'r gwaith yn dibynnu ar gydweithio ag ystod o bartneriaid ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

a) Maes Blaenoriaeth: Rheoli Tir ar gyfer Natur

- Yn cyfrannu at bolisiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a meysydd effaith L1 (d), E1 (a, b, c, e, f, l, n ac o), N3 (b a c).
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthu (Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth, Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd, Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu, Gofalu am Goed yn y Dirwedd, Ymgysylltu a Gwirfoddoli ar ofalu am Ecosystemau'r Parc) ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).

1. Gwarchod y Parc

Diben: Ein nod yw cefnogi tiffeddianwyr i adfer rhwydwaith o goridorau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt ac i reoli ac ehangu'r cynefinoedd bywyd gwyllt allweddol sy'n rhan o system gylchrediad ein cefn gwlad. Bydd hyn yn rhoi cyfle i rywogaethau sefydlu poblogaethau mwy o faint a mwy cynaliadwy, ac i greu rhai newydd.

Canlyniad: Ardaloedd mwy o faint, gwell ardaloedd ac ardaloedd mwy cysylltiedig ar gyfer bywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cynllun Grant <i>Gwarchod y Parc</i> .	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP), Cyngor Sir Penfro (CSP), Llywodraeth Cymru (LIC)	Ar y gweill, ar gapasiti.
Y Rhwydwaith o Anifeiliaid Pori Sir Benfro.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth		Ar y gweill, ar gapasiti.
Gweithredu'r Cynllun Adfer Natur Sir Benfro.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, CSP, LIC	Ar y gweill.
Gweithredu'r prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy <i>Dawnsio ar y Dibyn</i> .	Cychwyn yn 2021 (i'w gadarnhau).	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Cyflawni'r cynllun Creu <i>Mwy o Ddolydd</i> mewn Partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiect <i>Dolydd Godidog</i> yn Sir Benfro.	2020-2022	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.

2. Tir Comin Cydnerth

Diben: Cefnogi'r gwaith o reoli'r tir comin yn y Parc Cenedlaethol.

Canlyniad: Mae tir comin yn rhan annatod o'r systemau amaethyddol sydd o werth mawr i natur.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Gwaith torri blynyddol ar y rhwydwaith o doriadau tân.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Cymryd rhan yn Grŵp Tanau Gwyllt Sir Benfro (is-grŵp o Rwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro).	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Grantiau Cydnerthu Tir Comin ar gyfer ffensio i hwyluso'r gwaith o reoli tir comin.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, LIC	Ar y gweill.

3. Gwarchodfeydd natur sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol

Diben: Rheoli, ehangu a rhannu'r rhwydwaith o warchodfeydd natur sy'n eiddo i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Canlyniad: Rhwydwaith o safleoedd sy'n llawn natur sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at gadwraeth natur yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r safleoedd yn enghreifftiau o reoli ar gyfer natur, ac mae pobl leol ac ymwelwyr yn eu deall a'u mwynhau.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Prosiect <i>Dal a Storio Carbon ar gyfer y Genedl</i> - caffael tir yn strategol ar gyfer storio carbon a chadwraeth natur.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	LIC, APCAP	Ar y gweill
Gweithredu rhaglen flynyddol o waith ymarferol o reoli cadwraeth.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Clustogi a helaethu safleoedd presennol o ddiddordeb ar gyfer cadwraeth natur lle bo'r cyfle yn codi naill ai drwy brynu neu brydlesu tir.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Asesu effaith newid yn yr hinsawdd a'r codi yn lefel y môr ar safleoedd allweddol (Caeriw a Freshwater East).	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, LIC	Ar y gweill.
Datblygu cynllun cyfathrebu a dehongli ar gyfer ein Gwarchodfeydd Natur.	Parhaus	Y Tîm Cyfathrebu / Y Tîm Darganfod	Dim.	Heb ddechrau.

4. Ffiniau Traddodiadol

Diben: Gwella hyd, cyflwr a rheolaeth ffiniau caeau traddodiadol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro drwy gynnig cyngor, hyfforddiant a chymorth grant.

Canlyniad: Bydd sgiliau rheoli, atgyweirio a chynnal a chadw ffiniau caeau traddodiadol yn cael eu hadfywio. Bydd y cyfraniad a wneir i gysylltedd ecolegol, ansawdd y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol yn cael ei sicrhau ar gyfer y dyfodol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cynllun grant peilot <i>Ffiniau Caeau Traddodiadol</i> .	Mehafin 2020 – Chwefror 2022	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, LIC	Ar y gweill, y gronfa wedi'i dyrannu bron yn llwyr.
Ceisio cyllid i redeg rhaglen grant ar raddfa lawn ar gyfer ffiniau caeau traddodiadol.	Yn dilyn Blwyddyn 1 y Prosiect Peilot.	Y Tîm Cadwraeth	Dim. Dolenni i'r Prosiect Coed a Choetiroedd yn y Dirwedd.	Y prosiect wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth.

5. Coed a Choetiroedd yn y Dirwedd

Diben: Cefnogi'r gwaith o ehangu a rheoli coed a choetiroedd yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys coed hynafol, coed caeau, coed pori a choetir.

Canlyniad: Gwella a rheoli coetiroedd a choed yn gynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol, mwy o gysylltiad rhwng cynefinoedd a gwell canlyniadau bioamrywiaeth.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Prosiect <i>Coed a Choetiroedd yn y Dirwedd</i> .	2021/2022	Y Tîm Cadwraeth	Dim. Dolenni i'r Prosiect Coed a Choetiroedd yn y Dirwedd. Coed Cymru	Y prosiect wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth.
Canllawiau Lleoli a Dylunio Coed a Choetiroedd.	2021/2022	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill

Maes Blaenoriaeth: Ffermio law yn llaw â Natur

- Yn cyfrannu at bolisiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. W1 (e), E1 (a, b, e, o & p), N2 (a), N3 (a, b & c).
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth, Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu) ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).

6. Amaethyddiaeth gynaliadwy

Diben: Monitro a mewnbynnu i'r agenda dwysáu cynaliadwy yng Nghymru.

Canlyniad: Busnesau fferm cynaliadwy, cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy a mwy o fioamrywiaeth ar dir fferm.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Gweithio gyda ffermydd llaeth yn y Parc Cenedlaethol i dreialu gwahanol ddulliau i alluogi busnesau fferm i leihau carbon drwy fesurau gwrthbwyso a lleihau carbon.	2021/2021 – peilot blwyddyn.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, LIC (Cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy)	Ar y gweill.
Cefnogi'r modd y mae'r Cynllun newydd ar Reoli Tir yn Gynaliadwy ar gyfer Cymru yn cael ei ddylunio a'i gyflawni.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Parciau Cenedlaethol Cymru	Ar y gweill.

b) Maes Blaenoriaeth: Rhywogaethau dan fygythiad

- Yn cyfrannu at bolisi E1 (n) Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.
- Yn cyfrannu at Amcan Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd, Ymgysylltu a Gwirfoddoli wrth ofalu am Ecosystemau'r Parc).

7. Rhywogaethau dan Fygythiad

Diben: Gweithredu i sicrhau dyfodol rhywogaethau y mae gan y Parc Cenedlaethol gyfrifoldeb arbennig amdanynt, rhywogaethau sy'n dirywio a rhywogaethau sydd mewn perygl o ddiplannu yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys y rhai a restrir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Canlyniad: Mae amrywiaeth y rhywogaethau brodorol ac ymfudol yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Prosiect <i>Damsels in Distress</i> . Gweithredu'r rhaglen waith a flaenoriaethwyd ar wella cynefinoedd ar gyfer mursen y de.	2020-2023	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Ar y gweill.
Prosiect gloynnod byw sydd dan fygythiad ar gyfer y frithribin frown, britheg y gors, britheg berlog fach a'r glesyn serenog.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Ar y gweill.

8. Prosiect Pobl, Llwybrau a Pheillwyr (Arweinydd – y Tîm Cyflawni)

Diben: Rheoli Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro er budd peillwyr a rhywogaethau planhigion a phryfed.

Canlyniad: Mae bioamrywiaeth ar Lwybr yr Arfordir yn cael ei ddiogelu a'i wella. Mae'n ychwanegu at fwynhad pobl o Lwybr yr Arfordir.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Gweithredu'r Prosiect peilot Pobl, Llwybrau a Pheillwyr.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Rheolwr Wardeniaid Ardal y Gorllewin	Wardeniaid, Warden Peillwyr, Gwirfoddolwyr	Ar y gweill.
Cyflwyno'r prosiect i rannau eraill o Lwybr Arfordir Sir Benfro.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Rheolwr Wardeniaid Ardal y Gorllewin	Wardeniaid, Warden Peillwyr, Gwirfoddolwyr, prosiect Dawnsio ar y Dibyn	Ar y gweill.

c) Maes Blaenoriaeth: Mynd i'r afael â'r pwysau allweddol ar fywyd gwyllt

- Yn cyfrannu at bolisiâu L2 (a, b & c) Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, W1 (f, o), W2 (b, c & d), E1 (c, g, m & r).
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd, Ymgysylltu a Gwirfoddoli wrth ofalu am Ecosystemau'r Parc), Cymunedau (Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl) ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg).

9. Prosiect Pwyth mewn Pryd
Diben: Treialu dull seiliedig ar ddalgylch o reoli Clymog Japan a Jac y Neidiwr mewn dalgylchoedd targed yn y Parc Cenedlaethol.
Canlyniad: Mae rhywogaethau ymledol yn cael eu rheoli a/neu eu gwaredu, ac mae model gweithio i reoli rhywogaethau ar gael i reoli'r rhywogaethau targed ar hyd a lled y Parc.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Prosiect <i>Pwyth mewn Pryd</i> (dalgylchoedd Gwaun, Porth-gain, Clydach a Chastellmartin).	Ebrill 2019 i Ebrill 2022.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Gwirfoddolwyr	Ar y gweill

10. Gweithredu strategaeth ar draws y Parc ar Reoli Jac y Neidiwr a Chlymog Japan
Diben: Cyflwyno'r dull Pwyth mewn Pryd ar draws y Parc.
Canlyniad: Mae rhywogaethau ymledol yn cael eu rheoli a / neu eu gwaredu, ac mae bioamrywiaeth yn cael ei ddiogelu a'i wella.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Datblygu strategaeth flaenoriaeth ar gyfer rheoli ar draws y Parc.	2020	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Gwirfoddolwyr	Heb ddechrau.
Cynnal arolwg o'r rhywogaethau targed.	2020/2021	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Gwirfoddolwyr	Heb ddechrau.

11. Goleuadau Artiffisial
Diben: Rheoli goleuadau ar gyfer rhywogaethau a grwpiau o rywogaethau sydd mewn perygl gan gynnwys ystlumod, dyfrgwn, pathewod, adar drycin Manaw (sydd hefyd yn cael eu heffeithio gan oleuadau llongau) ac infertebratau.
Canlyniad: Lleihau goleuadau fel ffactor sy'n effeithio ar fioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cynhyrchu a hyrwyddo canllawiau cynllunio atodol ar gyfer Sir Benfro ar oleuadau ar gyfer datblygiadau sydd angen cynlluniau goleuo (Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro).	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	APCAP, Partneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro	Ar y gweill.
Ymgysylltu â chymunedau i leihau goleuadau diangen.	2020/2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	APCAP, Partneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro	Ar y gweill.
Dynodi Gwarchodfa Awyr Dywyll yn Sir Benfro (dichonoldeb).	2020/2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	APCAP, CSP, Partneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro, LIC (Cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy)	Ar y gweill.
Hyrwyddo arferion da o ran goleuadau, a gorfodi lle bo hynny'n briodol (gan ganolbwyntio ar osodiadau sy'n rhyngweladwy â safleoedd Darganfod Awyr Dywyll).	2020/2022	Swyddog Polisi Iechyd a Thwristiaeth	APCAP, Partneriaeth Llygredd Golau Sir Benfro	Ar y gweill.

12. Cymryd rhan mewn atal troseddau bywyd gwyllt
Diben: Gweithio gyda'r Fforwm Troseddau Gwledig a Swyddogion Cyswllt Bywyd Gwyllt yr Heddlu i glustnodi ac atal troseddau bywyd gwyllt.
Canlyniad: Llai o droseddau bywyd gwyllt.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Mynychu'r Fforwm Troseddau Gwledig.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Rheolwr Gwasanaethau Parcmyn	APCAP	Ar y gweill.
Cynnal cyswllt â Swyddogion lleol Troseddau Bywyd Gwyllt yr Heddlu.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.

d) Maes Blaenoriaeth: Pobl yn gweithredu dros fywyd gwyllt

- Yn cyfrannu at bolisi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol W2 (c).
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd, Ymgysylltu a Gwirfoddoli wrth ofalu am Ecosystemau'r Parc), Cymunedau (Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl) ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg).

13. Cynnwys cymunedau wrth weithredu Cynllun Adfer Natur Sir Benfro
Diben: Cynnwys ystod o bobl wrth gyflawni Cynllun Adfer Natur Sir Benfro a thrwy ein gweithgareddau ein hunain.
Canlyniad: Gwell canlyniadau yn y Parc Cenedlaethol ac yn Sir Benfro. Mwy o ymgysylltiad â bioamrywiaeth a chadwraeth natur.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Gweithredu Cynllun Adfer Natur Lleol Sir Benfro.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, CSP, LIC	Ar y gweill.
Gwirfoddolwyr yn gwneud arolwg o ymlusgiaid.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Grŵp Ymlusgiaid ac Amffibiaid Sir Benfro, Ymddiriedolaeth Ymlusgiaid ac Amffibiaid, Gwirfoddolwyr	Ar y gweill.
Gwirfoddolwyr yn monitro britheg y gors a mursen y de.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Gwirfoddolwyr	Ar y gweill.
Cefnogi arolygon Gwarchod Glöynnod Byw o'r frithribin frown.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Cefnogi gwyddoniaeth dinasyddion sy'n darparu data ar gyfer cadwraeth.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.

e) Maes Blaenoriaeth: Arolwg, Monitro ac Ymchwil

- Yn cyfrannu at bolisi W2 (c) Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac yn sail i feysydd effaith o dan bolisi E1.
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Gwasanaeth Rheoli Tir Cadwraeth, Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd, Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu, Ymgysylltu a Gwirfoddoli wrth ofalu am Ecosystemau'r Parc), Cymunedau (Gweithgareddau a Phrosiectau Cymunedol sydd o fudd i'r Parc ac i'r Bobl) ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).

14. Arolwg o'r Cynefinoedd a'r Rhywogaethau
Diben: Cynnal arolygon o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau.
Canlyniad: Gwell gwybodaeth o ddsbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau yn y Parc Cenedlaethol sy'n llywio'r dulliau cadwraeth a chynllunio ar sail tystiolaeth.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cefnogi Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru a defnyddio arbenigedd y ganolfan.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Cyflwyno cofnodion bywyd gwyllt i Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Creu rhestr o'r glaswelltir ar gyfer y Parc Cenedlaethol.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Heb ddechrau.

15. Monitro
Diben: Monitro cyflwr ac asesu tueddiadau.
Canlyniad: Gwell gwybodaeth am gyflwr a thueddiadau cynefinoedd a rhywogaethau yn y Parc Cenedlaethol sy'n llywio'r dulliau cadwraeth ar sail tystiolaeth.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Parhau â'r prosiectau monitro tymor hir ar gyfer y frân goesgoch, y dylluan wen, ystlumod (Castell Caeriw) a'r ehedydd (Maes Awyr Tyddewi).	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Comisiynu adolygiad allanol o'r set ddata ar fonitro'r frân goesgoch.	2021	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Wedi'i gwblhau.
Gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu prosiectau monitro tymor hir yn y Parc Cenedlaethol (megis hwyaden yr eithin, adar y môr).	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.

Cefnogi a rhoi mewnbwn i'r Adroddiad ar Gyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
--	---------	-----------------	-------	--------------

16. Gwaith Ymchwil
Diben: Gwella ein gwybodaeth am fyd natur yn y Parc Cenedlaethol, a llywio ein camau o reoli cadwraeth.
Canlyniad: Dulliau ar sail tystiolaeth o reoli cadwraeth.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cefnogi eraill sy'n gwneud gwaith ymchwil sydd o fudd i'r Parc Cenedlaethol.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Parhau i gefnogi ein partneriaethau prifysgol.	Parhaus	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Olrhain symudiadau'r wiber drwy ddulliau radio mewn partneriaeth â Chadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid i ymchwilio i'r defnydd a wneir gan wiberod o'r llain arfordirol.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.
Dadansoddiad pellach o'r set ddata ar fonitro'r frân goesgoch i glustnodi'r ffactorau sy'n effeithio ar lwyddiant (megis daeareg a defnydd tir).	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	Angen cyllid o £10k	Heb ddechrau.
Cynnal cyfraniadau i Grŵp Gwylidwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP	Ar y gweill.

7. Maes Blaenoriaeth: Yr Amgylchedd Morol

- Yn cyfrannu at bolisiau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol W2 (c). E1 (g, h, l & m).
- Yn cyfrannu at Amcanion Llesiant canlynol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol: Cydnerthedd (Partneriaethau Strategol Cadwraeth ac Ymgysylltu, yr Amgylchedd Morol a'r Blaendraeth, ac Amcanion Llesiant Byd-eang (Ffrydiau Gwaith: Rhinweddau Arbennig: Ysbrydoliaeth ac Addysg, Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd).

17. Rheoli'r blaendraeth
Diben: Cefnogi'r gwaith integredig o reoli'r blaendraeth yn gynaliadwy.
Canlyniad: Gwarchod / gwella'r blaendraeth, a mwy o ymwybyddiaeth a chyfoethogi profiadau ymwelwyr o'r blaendraeth.

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli cloddio am abwyd yn y rhynglanw ac atal difrod i nodweddion cadwraeth Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro (drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Llywodraeth Cymru, Cwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro.	Ar y gweill.
Cefnogi gwaith partneriaid i reoli gweithgareddau hamdden i amddiffyn bywyd gwyllt a chynefinoedd arfordirol a morol.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro (drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Llywodraeth Cymru, Cwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro.	Ar y gweill.
Ar y cyd â rhanddeiliaid, creu Cynllun Gweithredu ar Reoli'r Blaendraeth, gyda chamau gweithredu ar y cyd fel aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a chynlluniau gweithredu cydweithredol penodol i safle ar gyfer lleoliadau sydd dan bwysau.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Pennaeth y Gwasanaethau Parcryn.	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro (drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Llywodraeth Cymru, Cwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro.	Ar y gweill.
Lleihau gwastraff a sbwriel morol drwy leihau'r defnydd a wneir gan yr Awdurdod, cyfrannu at weithgaredd	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Darganfod, Y Tîm Parcryn, Y Tîm Cyflawni	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro	Ar y gweill.

glanhau'r traethau, a chodi ymwybyddiaeth.			(drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Llywodraeth Cymru, Cwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Cyngor Sir Penfro, Cadwch Gymru'n Daclus, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.	
--	--	--	---	--

18. Safleoedd Morol Ewropeaidd				
Diben: Cefnogi'r gwaith o reoli'r Safle Morol Ewropeaidd drwy gyfrannu'n ariannol tuag at y camau a gymerwyd ar gyfer y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at nodau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Datganiad Polisi Morol y DU.				
Canlyniad: Gwarchod / gwella rhinweddau'r Safle Morol Ewropeaidd, a mwy o ymwybyddiaeth a chyfoethogi profiadau ymwelwyr o'r rhinweddau hynny.				

Gweithredu / Menter	Amserlen	Arweinydd yr Awdurdod PC	Adnoddau/Partneriaid	Statws
Codi ymwybyddiaeth o'r bywyd gwyllt morol lleol a'r modd y gall ein gweithredoedd effeithio ar yr ecosystemau morol hanfodol.	Parhaus	Y Tîm Darganfod, Y Tîm Cyflawni, Y Tîm Parcmy, Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro (drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Grŵp Llywio Rheoli Ardal Forol Warchoddedig	Ar y gweill.
Ceisio cyfleoedd i weithio ar y cyd i wella gwybodaeth am ansawdd dŵr a rheoli tir. Cefnogi ehangu'r gwaith o wella ansawdd y dŵr o'r Ddyfrffordd i'r arfordir agored.	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cyflawni, Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Swyddog Safle Morol Ewropeaidd Sir Benfro (drwy gyfraniad i'r Grŵp Awdurdod Perthnasol), Cwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro. Partneriaid eraill: Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, Dŵr Cymru, PLANED.	Ar y gweill.
Gweithio gyda phartneriaid i baratoi cynllun bioddiogelwch ar gyfer Arfordir Sir Benfro. Cefnogi codi ymwybyddiaeth a chyflwyno adroddiadau (megis ap Cod Morol).	Cyfnod cyfredol y cynllun.	Y Tîm Cadwraeth	APCAP, Grŵp Awdurdodau Perthnasol Morol Sir Benfro (yn cynnwys Porthladd Aberdaugleddau), Grŵp Gwylidwriaeth Amgylcheddol Dyfrffordd Aberdaugleddau, Partneriaeth Natur Sir Benfro, a Chwmni Buddiannau Cymunedol Fforwm Arfordirol Sir Benfro.	Ar y gweill.
Cydweithio ar atal llygredd morol, cynllunio wrth gefn ac ymateb.	Parhaus	Pennaeth y Gwasanaethau Parcmy, Y Swyddog Bioamrywiaeth	APCAP, Grŵp Gwrth-lygredd Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys, Grŵp Cynghori ar Reoli Safleoedd Peryglon Damweiniau Mawr yn yr Hafan	Ar y gweill.